

## Cwynion ac Adborth am y Cyngor Optegol Cyffredinol

---

Statws y ddogfen:	Terfynol
Fersiwn:	1
Cymeradwywyd gan:	Cyngor
Dyddiad cymeradwyo:	Tachwedd 2016
Effeithiol o:	Ionawr 2017
Perchennog:	Pennaeth Llywodraethu
Awdur:	Rheolwr Cydymffurfio
Deddfwriaeth berthnasol:	Deddf Cydraddoldeb 2010
Polisiâu cysylltiedig:	<ul style="list-style-type: none"><li>• Ymddygiad Derbyniol wrth gyfathrebu â'r GOC</li><li>• Ymchwiliadau Mewnol</li><li>• Codi'ch Llais yn y GOC</li><li>• Cwynion Cyflogaeth</li></ul>
Polisiâu a ddisodlwyd	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cwynion am y GOC (2010)</li><li>• Cwynion yn erbyn Aelodau'r Cyngor (2010)</li><li>• Gweithdrefn gwyno am recriwtio aelodau (2013)</li><li>• Gweithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion am Raglenni a Chymwysterau a Gymeradwyir gan y Cyngor Optegol Cyffredinol (2012)</li></ul>
Cwblhau'r Asesiad Effaith:	Hydref 2016
Adolygu'r Asesiad Effaith:	Ionawr 2018
<b>Dyddiad nesaf adolygu'r polisi:</b>	<b>Tachwedd 2019</b>
Lleoliad - Gwefan:	<a href="https://www.optical.org/en/utilities/cymraeg/index.cfm">https://www.optical.org/en/utilities/cymraeg/index.cfm</a>

## Cynnwys

---

1. Datganiad Polisi.....	3
2. Diben .....	3
3. Cwmpas.....	3
4. Sut mae cwyno ac i bwy ydw i'n cwyno? .....	4
5. Sut byddwn yn rheoli'ch cwyn.....	5
6. Cam un – Ceisio ei datrys gyda'r person/adran rydych mewn cysylltiad â nhw...	6
7. Cam dau – Ceisio ei datrys gyda'r rheolwr perthnasol.....	6
8. Cam tri – Os ydych chi'n anghytuno o hyd (apelio).....	7
9. Beth all canlyniad fy nghwyn fod?.....	7
10. A gaf gwyno ar ran rhywun arall? .....	7
11. Gwersi a Ddysgwyd a Chydymffurfio .....	7
12. Profiadau Cadarnhaol.....	8
13. Addasiadau Rhesymol.....	8
14. Tryloywder .....	8
Atodiad 1: Siart Llif y Broses Gwyno .....	9
Atodiad 2: Gwasanaethau Eiriolaeth a Chymorth.....	9
Atodiad 3: Cwynion am recriwtio aelodau .....	11

## 1. Datganiad Polisi

---

- 1.1 Rydym wedi ymrwymo i ymateb i gwynion am ein gwasanaeth mewn modd amserol ac agored, gan sicrhau ein bod yn edrych ar y materion a godir yn ddiuedd, yn gyson ac yn gyflym.
- 1.2 Ystyriwn gwynion yn ffynhonnell adborth pwysig a defnyddiol am sut rydym wedi perfformio a sut allwn wella yn y dyfodol. Pan fydd pethau'n mynd o'u lle byddwn yn cydnabod ein camgymeriadau ac yn ceisio unioni pethau. Rydym yn addo na fyddwn yn eich trin yn annheg am eich bod wedi codi cwyn gyda ni.
- 1.3 Hefyd croesawn eich adborth am bethau sydd wedi mynd yn dda, a ddefnyddiwn i ddatblygu'n prosesau a'n harferion er mwyn gwella'n gyson.
- 1.4 Mae'r mwyafrif o bobl sy'n cysylltu â ni yn gyfrifol ac yn dangos ymddygiad derbyniol, ond ar adegau prin nid yw hyn yn wir. Derbyniwn y gall unigolion, wrth gysylltu â ni i godi mater, fod yn ofidus, yn rhwystredig neu'n ddig, ond disgwyliwn gael ein trin fel y byddem yn trin eraill. Byddwn ni:
  - 1.4.1 yn eich trin yn gwrtais ac yn ystyriol;
  - 1.4.2 yn parchu'ch urddas a'ch preifatrwydd;
  - 1.4.3 yn gwrando ar eich barn ac yn ei pharchu;
  - 1.4.4 bob amser yn ceisio rhoi gwybodaeth i chi mewn ffordd y gallwch ei deall; a
  - 1.4.5 lle bo'n bosibl, yn gwneud addasiadau rhesymol i'n gwasanaeth i'ch helpu i'ch barn gael ei chlywed.

## 2. Diben

---

- 2.1 Mae'r polisi hwn yn amlinellu sut allwch chi godi cwyn neu roi adborth am ein polisiau, prosesau, cyflogeion, aelodau neu bobl eraill sy'n gweithio i ni. Hefyd gallwch ddefnyddio'r polisi hwn i roi gwybod i ni sut mae darparwr cwrs Addysg Optegol neu CET neu'r OCCS (Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol) wedi ymdrin â chwyn rydych wedi ei chodi gyda nhw.
- 2.2 Mae'r polisi hwn yn esbonio sut byddwn yn ymdrin â'ch cwyn a beth i'w ddisgwyl yn ystod y broses.

## 3. Cwmpas

---

- 3.1 Gall unrhyw un sy'n dod i gysylltiad â'n gwasanaeth ac sy'n anhapus neu'n anfodlon gwyno i ni.
- 3.2 Mae'r polisi hwn yn cyfeirio at godi cwynion neu roi adborth am:
  - 3.2.1 rywbeth rydym o bosibl wedi ei wneud, neu y dylem fod wedi ei wneud;
  - 3.2.2 ein polisiau neu brosesau (gan gynnwys y sawl sy'n gysylltiedig â'n swyddogaethau statudol a'n dulliau recriwtio); a
  - 3.2.3 pha mor dda mae ein cyflogeion, aelodau neu bobl eraill sy'n gweithio ar ein rhan wedi eich trin.
- 3.3 Nid dyma'r polisi ar gyfer cwynion am:

- 3.3.1 gofrestreion neu fusnesau optegol<sup>1</sup>;
  - 3.3.2 eich sbectol, lensys cyffwrdd nac ad-daliadau<sup>2</sup>;
  - 3.3.3 newidiadau i'r gyfraith, safonau'r llywodraeth nac arweiniad nad oes gennym unrhyw reolaeth uniongyrchol drostynt; na
  - 3.3.4 chanlyniadau gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer neu benderfyniadau cyfreithiol eraill<sup>3</sup>.
- 3.4 Os yw'ch cwyn yn ymwneud â darparwr Addysg, cwrs CET neu ddarparwr CET, neu'r OCCS (Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol) dylech godi'r mater gyda nhw yn gyntaf cyn ei godi gyda ni, oni bai bod rheswm pa na allwch wneud hynny.
- 3.5 Os ydych yn ansicr pa bolisi i'w ddefnyddio, dywedwch wrthym am eich pryder a byddwn naill ai'n eich cyfeirio at y tîm mwyaf priodol neu'n gadael i chi wybod pa gyrff sydd mewn sefyllfa well i ymchwilio i'ch cwyn. Hefyd gallwch siarad â'r Tîm Cydymffurfio am hyn.
- 3.6 Os ystyriwn fod natur eich cwyn yn ddifrifol iawn<sup>4</sup>, mae'n bosibl y penderfynwn agor Ymchwiliad Mewnol yn unol â'n polisi Ymchwiliadau.
- 3.7 Nid dyma'r polisi i gyflogeion neu aelodau godi eu pryderon – dylent hwy ddefnyddio'r polisiâu cwynion cyflogaeth neu godi'ch llais.

#### **4. Sut mae cwyno ac i bwy ydw i'n cwyno?**

---

- 4.1 Gallwch godi'ch cwyn gyda ni ar lafar neu'n ysgrifenedig, a hynny yn y Gymraeg neu Saesneg. Mae'n bosibl y bydd modd i ni dderbyn eich cwyn mewn iaith wahanol, cysylltwch â ni i ddefnyddio'n gwasanaeth Cyfieithu.
- 4.2 Bydd y sawl rydych mewn cysylltiad â nhw neu'r adran berthnasol bob amser yn ceisio datrys eich cwyn. Yn aml dyma'r ffordd gyflymaf o ddatrys eich cwyn.
- 4.3 Rydym yn eich annog i godi'ch cwyn i ni cyn gynted â phosibl ar ôl i'r digwyddiad ddigwydd neu pan ddaethoch yn ymwybodol o'r broblem. Os bydd oedi hir rhwng pan ddewch yn ymwybodol o'r broblem a phan ddewiswch ei chodi, byddwn yn ystyried ymchwilio os oes rheswm da am yr oedi ac os yw'n dal yn bosibl cwblhau ymchwiliad teg ac effeithiol i'r mater.

---

1

[https://www.optical.org/en/Investigating\\_complaints/How\\_to\\_make\\_a\\_complaint/index.cfm](https://www.optical.org/en/Investigating_complaints/How_to_make_a_complaint/index.cfm)

<sup>2</sup> [https://www.optical.org/en/Investigating\\_complaints/index.cfm](https://www.optical.org/en/Investigating_complaints/index.cfm)

<sup>3</sup> [https://www.optical.org/en/Investigating\\_complaints/fitness-to-practise-guidance/index.cfm](https://www.optical.org/en/Investigating_complaints/fitness-to-practise-guidance/index.cfm)

<sup>4</sup> Fel a ddiffinnir yn ein polisi Ymchwiliadau, mae 'natur ddifrifol' fel arfer yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: honiadau o gamymddygiad; honiadau o fwlio neu aflonyddu; cwynion cyflogaeth cyflogai neu aelod; materion ynghylch gallu neu berfformiad parhaus cyflogai neu aelod.

- 4.4 Os yw'ch cwyn yn ymwneud â'n prosesau recriwtio aelodau, rhaid iddi gael ei chyflwyno o fewn 48 awr ar ôl i ganlyniad y cais gael ei gyhoeddi er mwyn inni allu ymchwilio iddi cyn i'r penodiad gael ei derfynu. Cyfeiriwch at atodiad 3 am ragor o fanylion.
- 4.5 Ar unrhyw adeg, gallwch anfon eich cwyn atom ni, drwy un o'r dulliau canlynol:
- 4.5.1 llythyr: at Corporate Complaints, General Optical Council, 10 Old Bailey, London EC4M 7NG;
  - 4.5.2 e-bost: at [corporatecomplaints@optical.org](mailto:corporatecomplaints@optical.org)
  - 4.5.3 ffôn: ar 020 7580 3898 (opsiwn 7)
- 4.6 Oriau agor ein swyddfa yw: dydd Llun i ddydd Iau 09:00-17:00 (9am-5pm) a dydd Gwener 09:00-16:45 (9am-4.45pm).
- 4.7 Pan gyflwynwch eich cwyn mae'n bwysig eich bod yn rhoi cynifer o fanylion â phosibl, i helpu gyda'r ymchwiliad. Gall hyn gynnwys:
- 4.7.1 dyddiadau digwyddiadau perthnasol;
  - 4.7.2 unrhyw wybodaeth gefndir berthnasol a allai ein helpu i ddeall ac ymchwilio i'ch cwyn (fel enwau pobl rydych wedi bod mewn cysylltiad â nhw);
  - 4.7.3 beth sydd wedi mynd o'i le yn eich barn chi; a
  - 4.7.4 beth ddylem ni ei wneud yn eich barn chi i unioni pethau.
- 4.8 Os oes angen unrhyw help arnoch chi i gwyno, gweler atodiad 2 am restr o wasanaethau eiriolaeth a chymorth.
- 4.9 Os bydd cwyn yn cael ei gwneud yn ddi-enw, byddwn yn ystyried a allwn ymchwilio ar sail yr wybodaeth sydd ar gael a byddwn yn ceisio ymateb lle bo'n bosibl.
- 4.10 Os ydych eisoed wedi cyflwyno'r un gŵyn neu gŵyn debyg ac wedi disbyddu ein holl brosesau, ni fyddwn yn ei hailystyried heb i wybodaeth newydd sylweddol gael ei darparu.

## **5. Sut byddwn yn rheoli'ch cwyn**

---

- 5.1 Mae gennym broses tri cham ar gyfer rheoli cwynion amdanon ni:
- 5.1.1 Cam un – y person/adran rydych eisoed mewn cysylltiad â nhw;
  - 5.1.2 Cam dau – y rheolwr neu aelod perthnasol; a
  - 5.1.3 Cham tri – os ydych yn dal i anghytuno (apelio).
- 5.2 Ar bob cam, cydnabyddwn eich cwyn o fewn tri diwrnod gwaith.
- 5.3 Caiff eich cwyn ei dyrannu i'r person mwyaf priodol i ymchwilio iddi gan y Tîm Cydymffurfio.

- 5.4 Mae'n bosibl y bydd angen i ni ofyn i chi am ragor o wybodaeth cyn y gallwn edrych i mewn iddi ymhellach. Os ydych yn ffafrio un dull i ni gysylltu â chi, rhowch wybod i ni.
- 5.5 Bydd ein holl ymatebion i gwynion yn esbonio'r hyn sydd wedi digwydd, beth sydd wedi cael ei wneud neu'n cael ei wneud i ymdrin â'r mater a phan ddylai'r mater gael ei ddatrys yn llawn.
- 5.6 Os ydych yn anhapus gyda'r ymateb a gewch ar unrhyw gam, mae gennych yr opsiwn o fynd â'ch cwyn i'r cam nesaf. Rhaid i chi godi'ch cwyn i'r cam nesaf cyn pen 20 diwrnod gwaith ar ôl yr ymateb.
- 5.7 Gall ein Tîm Cydymffurfio, sy'n goruchwylio'r broses, ddarparu mwy o wybodaeth – cewch gysylltu â nhw mewn unrhyw rai o'r dulliau a restrir ym mharagraff 4.5. Fel arall, gweler atodiad 1 am siart llif o'r broses hon.

## **6. Cam un – Ceisio ei datrys gyda'r person/adran rydych mewn cysylltiad â nhw**

---

- 6.1 Pan godwch eich cwyn gyda'r person neu'r adran rydych mewn cysylltiad â nhw, bydd ein cyflogaion yn gweld a allant ddatrys eich cwyn. Os oes modd, byddant yn ymateb cyn pen pum niwrnod gwaith o'u cydnabyddiaeth.
- 6.2 Os na allant ddatrys eich cwyn dros y ffôn, bydd trosolwg o'r gŵyn yn cael ei anfon atoch yn ysgrifenedig i gadarnhau ein bod wedi nodi holl bwyntiau'r gŵyn, wrth iddynt edrych i mewn i'r materion rydych wedi eu codi.
- 6.3 Mae'n bosibl y bydd y cyflogai yn penderfynu ei bod yn fwy priodol i chi gyfeirio'ch cwyn at gam dau a gallai uwchgyfeirio'ch cwyn at ein Tîm Cydymffurfio a fydd yn ei dyrannu i reolwr priodol. Byddant yn gadael i chi wybod os byddant yn gwneud hyn.

## **7. Cam dau – Ceisio ei datrys gyda'r rheolwr perthnasol**

---

- 7.1 Mae'n bosibl bod eich cwyn eisoes wedi cael ei chyfeirio at y cam hwn gan y person rydych mewn cysylltiad â nhw. Os na, gallwch ofyn i'ch cwyn dderbyn sylw uwch reolwr.
- 7.2 Caiff cwynion a gyfeirir yn uniongyrchol at uwch reolwr eu dyrannu gan ein Tîm Cydymffurfio i'r rheolwr mwyaf priodol ar y cam hwn.
- 7.3 Caiff cwynion am ein haelodau bob amser eu cyfeirio i'r cam hwn a'u hystyried gan Gadeirydd Pwyllgor neu Aelod o'r Cyngor, fel y bo'n briodol.
- 7.4 Bydd y rheolwr /aelod perthnasol yn cwblhau ymchwiliad. Eu nod fydd ymateb i'ch cwyn cyn pen 20 diwrnod gwaith ar ôl y cyfeiriad at y cam hwn a rhoddwn yr wybodaeth ddiweddaraf i chi os bydd unrhyw oedi.

7.5 Os bydd y gŵyn yn ddifrifol iawn (gweler paragraff 3.6), mae'n bosibl y bydd y rheolwr/aelod yn ei chyfeirio am ymchwiliad o dan ein polisi Ymchwiliadau Mewnol.

## **8. Cam tri – Os ydych yn anghytuno o hyd (apelio)**

---

8.1 Cam tri yw cam olaf ein gweithdrefn gwyno. Os ydych yn anfodlon ar ymateb cam dau, cewch apelio a gofyn iddo gael ei adolygu gan uwch reolwr (neu Uwch Aelod o'r Cyngor/Cadeirydd dros gwynion am aelodau). Rhaid i'r apêl hon gael ei chyflwyno cyn pen 20 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb cam dau.

8.2 Byddwch yn derbyn ymateb terfynol cyn pen 10 diwrnod gwaith o'r diwrnod ar ôl i'ch apêl ddod i law.

8.3 Nid oes unrhyw fecanwaith apelio mewnol pellach ar ôl y cam hwn.

8.4 Os anghytunwch â'r ymateb terfynol, cewch godi'ch pryderon gyda'r Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA) sy'n rheoleiddio'n gweithgarwch ni. Fel arall, dylech geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

## **9. Beth all canlyniad fy nghwyn fod?**

---

9.1 Ar ôl i ni edrych i mewn i'ch cwyn, byddwn yn ysgrifennu atoch i esbonio'r canfyddiadau a'r canlyniadau ar bob cam. Byddwn yn gadael i chi wybod beth ddigwyddodd ac os daethom o hyd i gamgymeriadau byddwn yn eu cydnabod, yn rhoi gwybod i chi sut mae'r sefyllfa wedi cael sylw neu sut y caiff sylw a'r amserlen debygol, lle bo'n briodol.

## **10. A gaf gwyno ar ran rhywun arall?**

---

10.1 Rydym yn hapus i dderbyn sylwadau a chwynion drwy gyfrwng rhywun sy'n gweithredu ar eich rhan. Byddwn yn gofyn i chi gadarnhau yn ysgrifenedig eich bod yn hapus i'r person hwnnw weithredu ar eich rhan a byddwn yn delio â nhw'n uniongyrchol nes ein bod wedi cwblhau'r ymchwiliad i'ch cwyn.

10.2 Gallwch ddweud wrthym ni ar unrhyw adeg os nad ydych yn dymuno i'r person eich cynrychioli chi bellach.

10.3 Os bydd angen i ni gael gwybodaeth a ddelir gan drydydd parti mewn perthynas â'ch cwyn, byddwn yn gofyn i chi am eich caniatâd ysgrifenedig.

## **11. Gwersi a Ddysgwyd a Chydymffurfio**

---

11.1 Cymerwn bryderon a chwynion o ddifrif a cheisiwn ddysgu o unrhyw gamgymeriadau rydym wedi ei wneud. Pan fydd angen am newid neu wella, datblygwn gynllun gweithredu sy'n pennu'r hyn byddwn yn ei wneud a chan bwy. Cynhwyswn wersi a ddysgwyd yn ein hyfforddiant ar gyfer cyflogeion.

11.2 Rhoddwn adroddiad ar ein cwynion bob chwarter i'r Uwch Dîm Rheoli, Y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Cyngor. Rydym yn monitro amserlenni, canlyniadau, gwersi a ddysgwyd a'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu.

## 12. Profiadau Cadarnhaol

---

12.1 Er ei bod yn bwysig dysgu o gamgymeriadau, dysgwn hefyd o pan fydd pethau'n mynd yn dda ac yn cydnabod cyfraniadau ein cyflogeion ac aelodau at ddarparu gwasanaeth ansawdd uchel.

12.2 Os ydych wedi cael profiad da o'n gwasanaeth, ein cyflogeion neu'n haelodau, byddem yn ddiolchgar iawn i glywed eich adborth. Defnyddiwn hyn i roi cydnabyddiaeth i unigolion a hefyd i rannu arfer gorau yn fewnol er mwyn gwella'n gwasanaethau ymhellach.

12.3 Anfonwch unrhyw adborth cadarnhaol drwy unrhyw rai o'r sianeli a restrir yn adran 4.5 a byddwn yn sicrhau y caiff ei drosglwyddo i'r rheolw(y)r priodol.

## 13. Addasiadau Rhesymol

---

13.1 Os oes arnoch chi angen unrhyw addasiadau rhesymol er mwyn defnyddio'r polisi hwn, cysylltwch â'r Tîm Cydymffurfio i drafod eich gofynion ymhellach. Gallwch gysylltu â'r Tîm Cydymffurfio drwy:

- 13.1.1 ffôn: 020 7307 8851
- 13.1.2 e-bost: [edi@optical.org](mailto:edi@optical.org)
- 13.1.3 post: Compliance Team  
General Optical Council  
10 Old Bailey  
London, EC4M 7NG

13.2 Caiff gwybodaeth ei darparu yn y fformat a geisir, lle bo'n bosibl, sy'n gallu cynnwys ieithoedd gwahanol.

13.3 Rhoddir ystyriaeth arbennig i'r sawl sy'n gofyn am wybodaeth ar ffurf fwy hygrych (er enghraifft, print bras neu Braille).

## 14. Tryloywder


---

14.1 Caiff yr holl ohebiaeth a dogfennau ategol ynghylch eich cwyn ei sganio a'i chadw'n gyfrinachol ar ein system gyfrifiadurol.

14.2 Caiff eich cwyn ei ffeilio yn unol â'n hamserlen gadw, ac wedi hynny caiff ei difa'n gyfrinachol. Pe baech yn dymuno i'ch gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'r gŵyn gael ei difa cyn hyn, cysylltwch ag [foi@optical.org](mailto:foi@optical.org)



# Atodiad 1: Siart Llif y Broses Gwyno



## Atodiad 2: Gwasanaethau Eiriolaeth a Chymorth

---

### Gwasanaethau Eiriolaeth –

Am ragor o wybodaeth am wasanaethau eiriolaeth sydd ar gael yn y DU, gweler:  
<http://www.nhs.uk/Conditions/social-care-and-support-guide/Pages/advocacy-services.aspx>

### Cymorth Cyfreithiol Sifil –

(gwasanaeth di-dâl, cyfrinachol a diduedd y telir amdano drwy gymorth cyfreithiol - am wybodaeth am ble i ddod o hyd i'ch darparwr cyngor cyfreithiol lleol wyneb yn wyneb)  
Ffôn: 0845 345 4 345  
Minicom: 0345 609 6677

### Cyngor ar Bopeth –

(gwasanaeth di-dâl, cyfrinachol a diduedd gyda llawer o wybodaeth ar-lein yn ogystal â gwasanaeth wyneb yn wyneb)  
<https://www.citizensadvice.org.uk>

### Samariaid

Mae'r Samariaid yn darparu gwasanaeth gwrandio di-dâl a chyfrinachol, 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. **Nid ydynt** yn rhoi cyngor ac nid ydynt yn adrodd eich pryderon i neb arall, ond weithiau mae dim ond siarad â rhywun nad ydynt yn aelod o'r teulu neu'n ffrind fod o gymorth aruthrol. Am ragor o wybodaeth am beth i'w ddisgwyl wrth gysylltu â'r Samariaid, ewch i:

<http://www.samaritans.org/how-we-can-help-you/what-happens-when-you-contact-us>

Cysylltwch â'r Samariaid ar: [jo@samaritans.org](mailto:jo@samaritans.org) Ffôn: 116 123 (y DU)

## Ein Rheoleiddiwr

---

### Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA)

Y corff sy'n gyfrifol am oruchwylio naw rheoleiddiwr iechyd a gofal (gan gynnwys y GOC) sy'n rheoleiddio gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn amddiffyn cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn briodol

<http://www.professionalstandards.org.uk/regulators/overseeing-regulators/concernsabout-regulators>

### Atodiad 3: Cwynion am recriwtio aelodau

---

1. Gweithiwn yn galed i sicrhau bod ein prosesau recriwtio aelodau yn deg, yn dryloyw ac yn seiliedig ar haeddiant. Serch hynny, os oes gennych bryder am y broses a ddefnyddir yn ein hymgyrchoedd recriwtio, gallwch gyflwyno cwyn **cyn pen 48 awr** ar ôl derbyn hysbysiad am ganlyniad.
2. Rhaid i gwynion am recriwtio aelodau gael eu prosesu'n gyflym er mwyn cadarnhau'r penodiad.
3. Caiff cwynion am ein prosesau recriwtio eu rheoli dim ond yng nghanam dau'r polisi hwn.
4. Uwch aelod sy'n annibynnol ar yr ymgyrch recriwtio benodol a fydd yn ymchwilio i'ch cwyn.
5. Byddwch yn derbyn ymateb cyn pen pum niwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y daw eich cwyn i law.
6. Nid oes unrhyw broses apelio tri cham ar gyfer cwynion recriwtio. Os anghytunwch â'r ymateb i gam dau, dylech geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.
7. Caiff y penodiad(au) eu cymeradwyo'n swyddogol dim ond ar ôl i'r broses gwynion gael eu cwblhau, rhag ofn bod unrhyw ganfyddiadau sy'n golygu bod angen ail-wneud y broses benodi.